"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1887. [RHIF 74.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Undodiaeth, a'n dyledswydd arbenig i'w hamddiffyn	217
Molwch yr Ion	221
Beth am Undodiaeth?	221
Gwrandawyr a Gwneuthurwyr	225
Gwron Rhyddid	227
Hunan-ymchwiliad	227
Post-Card Symposium	228
Nodynau Gwasgarog	234
Y Parch. R. J. Plater	236
Proclamasiwn y Cynghrair Cenedlaethol yn yr Iwerddon	238
Manion a Hanesion	239
Marwgofion	240

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1887. [RHIF 74.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

UNDODIAETH A'N DYLEDSWYDD ARBENIG I'W HAMDDIFFYN.

(Pregeth a draddodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol, Mehefin 23, 1887, *gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach.)*

(Parhad o dudalen 197.)

II. *Beth yw cenadwri neu ddyledswydd arbenig Undodiaid?*

Ymddengys i ni nas gall un rhwystr fod ar ein ffordd i roddi atebiad boddhaol i'r gofyniad dan sylw, am y rheswm fod digon o oleuni wedi ei daflu arno gan yr hwn y proffeswn oll fod yn ganlynwyr iddo, a'r hwn a gydnabyddwn ni fel ein Pen a'n Hathraw Mawr—Iesu Grist. Dywed ef, "mai efe yw goleuni y byd;" ac, o ganlyniad, nid oes gan neb o'i ganlynwyr i aros yn y tywyllwch o gwbl gyda golwg ar y pethau hyny sydd yn hanfodol er ein dwyn o'r tywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. Dywedodd hefyd, "Yr hwn a'm dylyno I ni rodia yn y tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd tragwyddol." Fel yr ymddengys i ni, ein gwaith arbenig ni, fel Undodiaid, a phawb Cristioniogion ereill, am hyny, yw, ymdrechu gweled a deall pa beth yw natur y goleuni ysprydol hwn, byw yn ei ol, a'i ddirgymhell i sylw ein cyddynion, a'u hannog i fyw, llawenhau, a gorfoleddu ynddo. Dywed yr Iesu mewn man arall fel hyn:—"Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y dygwn dystiolaeth i'r gwirionedd." Wel, os oedd yr Iesu yn credu yn drwyadl, fel y mae genym bob rheswm i gredu ei fod, mai er mwyn hyny y daeth i'r byd, meddyliwn ni na ddylai yr amheuaeth leiaf fod yn ein meddyliau ninau yn nghylch

mai ein dyledswydd arbenig ydyw, gwneyd a dweyd fel y gwnaeth ac y dywedodd ef; o ganlyniad, nis gall un amheuaeth fodoli yn ein meddyliau ni, fel Cristionogion, parth ein cenadwri arbenig, sef, "I ymdrech hardd-deg ymdrech y ffydd."

Gyda golwg ar Undodiaeth, yr hyn a ystyriwn ni yn gyfystyr â Christionogaeth bur, nid gwiw i ni ymdrechu celu y ffaith fod miloedd ar filoedd o'n Cristionogion yn parhau i aros mewn dygn dywyllwch gyda golwg ar ba beth yw y syniadau crefyddol a goleddir genym fel Undodiaid; ond er hyny, nid ydynt yn petruso dim yn nghylch siarad gyda'r diystyrwch mwyaf am y cyfryw, a gosod allan eu hamddiffynwyr fel hereticiaid o'r fath waethaf, ac haerant nad oes dim yn eu dylyn ond casineb Duw yn y byd presenol, ac uffern dragwyddol ei pharhad a dibwrpas da yn ol llaw. Ydyw, yn wir, y mae yn syndod meddwl am y syniadau isel a gwael a gau sydd yn bodoli etto yn ein byd, yn neillduol felly yn mhlith y dosparth mwyaf anwybodus mewn perthynas i beth, mewn gwirionedd, ydyw Undodiaeth, ac oblegyd hyny, y mae yn rhaid i ni, fel Undodiaid, etto megys i nofio yn erbyn y llif—ïe, i wrthryfela yn erbyn rhagfarnau culion a chamddarluniadau echryslon ein gwrthwynebwyr iawnffyddol (?) fel y tybir.

Yn awr, yr ydym yn rhwym o gyfaddef mai nid peth dymunol ydyw gorfod dyoddef oblegyd rhagfarn ddall, a chael ein camddarlunio felly, a'n gosod allan fel gelynion i'r hwn a gredwn ni mai "ganddo ef y mae geiriau y bywyd tragwyddol." Ond er hyny, y mae genym reswm i ymdawelu yn ngwyneb y fath ymddygiad a'r fath driniaeth arw ac an-Nghristionogol dan yr ystyriaeth fod Crist ei hunan wedi cael ei osod allan, er ys llawer dydd, gan ei elynion, fel un o'r cymmeriadau gwaethaf a ymddangosasant ar wyneb y ddaear erioed, sef fel "cyfaill publicanod a phechaduriaid," ac am ei fod yn gwneyd fel yr oeddynt hwythau yn gwneyd—"bwyta ac yfed."

Y mae yn wir fod yr Iesu yn gyfaill calon i'r cymmeriadau diarebol ddrygionus hyn, ond, ar yr un pryd, mewn ystyr wahanol iawn, ac annghymharol well nag oeddynt hwy yn tybied ei fod, ac yn ei osod allan; a gobeithiwn ein bod ninau, fel Undodiaid, yn rhai sydd yn efelychu ein Pen a'n Blaenor yn yr ystyr o fod yn gyfeillion i bawb a ystyriwn eu bod wedi, ac yn, myned ar gyfeiliorn, ac yn ymdrechu eu dwyn yn ol i dy eu Tad nefol.

Yn nesaf, cenadwri arbenig Undodiaeth neu Undodiaid, fel y credwn ni, gan hyny, yw, ein *bod yn ffyddlon* i'r gwirionedd fel y mae yn Iesu Grist, ei bleidio yn onest, ac uwchlaw pob peth, byw y gwirionedd drwy ddangos yn ymarferol ei fod yn cael ei ddylanwad cadwedigol arnom, ac os parheir i'n gosod allan fel gelynion Duw a dynion, ni fydd i'n cydwybodau ein condemnio, oblegyd "os y gwirionedd a'n rhyddha ni, rhyddion a fyddwn yn wir." Gan fod gyda ni syniadau neu feddylddrychau a ystyriwn sydd yn sylfaenedig ar wirionedd, ac yn cydgordio â'r cyfryw—ïe, gan ein bod yn ystyried ac yn edrych arnynt fel rhai Efengylaidd, ac o annghymharol fwy o bwys nâ'r rhai poblogaidd, ac yn tueddu mwy nâ'r cyfryw, yn ol ein barn ni, gyda golwg ar eu hamcan mawr i'n puro a'n glanhau oddiwrth bob halog-

rwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw, y mae pob peth sydd resymol, pob peth sydd deg, a phob peth sydd gyfiawn, yn galw arnom i gymmeryd dan ein hystyriaeth mai ein dyledswydd arbenig yw eu hamddiffyn a'u lledu yn y byd, fel y gwneler ef yn well, yn fwy ysprydol, ac yn fwy awyddus i weithredoedd da, yn ngwyneb pob peth ellir ei wneyd yn ein herbyn, gan gofio mai i'n "Harglwydd ein hunain yr ydym yn sefyll neu yn syrthio."

Gwir nad yw yn ein gallu i sicrhau cynnydd a llwyddiant, ond gallwn a dylem amcanu at hyny, ac nis gallwn ni ddim llai nâ llawenhau a gorfoleddu dan yr ystyriaeth fod arwyddion ein hamser yn ymddangos i ni yn hynod ffafriol i fuddugoliaeth ein ffydd gadwedigol ni. Nid yn yr un modd y mae yr athrawiaethau poblogaidd yn cael eu trafod yn bresenol yn y *Christian World* ag y trafodid hwy, mewn cymhariaeth, ychydig amser yn ol yn y gwahanol gyhoeddiadau iawnffyddol; ac y mae yn llon gyda ni feddwl fod cylchrediad y papyr rhagorol hwn mor hynod helaeth, a diau fod llawer o'i ddarllenwyr, erbyn hyn, yn teimlo ei fod megys yn un o'u gwir angenion yn y dyddiau presenol. Duw yn rhwydd iddo.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gwelwn y pwys annghymharol fawr i ni lafurio mewn ac allan o amser, er goleuo a dysgu yr anwybodus, gosod esiamplau da o flaen y genedl sydd yn codi, a rhoddi annogaethau a chymhelliadau taerion iddynt fyned ar gynnydd yn mhob gwybodaeth, rhinwedd, a daioni, a thrwy hyny, i wneyd ein rhan er prysuro yr amser gwell hwnw pan y bydd gwyneb ein daear yn debycach nag yw yn bresenol i wyneb y nef.

Cenadwri arbenig Undodiaeth neu Undodiaid hefyd, fel pawb Cristionogion, yw, bod o honom yn "*Israeliaid yn wir, yn y rhai nid oes dwyll*," a bod o honom yn ffyddlon i'n hargyhoeddiadau trylwyr presenol. Gweddai ein bod, yn weinidogion a gwyr lleyg, yn cael ein meddiannu gan yr un teimlad o'n cyfrifoldeb â'r Apostol Paul, pan ddywedai, "Dyledus ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Felly, hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr Efengyl i chwithau hefyd, y rhai ydych yn Rhufain" (i. 14, 15). Yr oedd yr apostol, nid yn unig yn bregethwr yr Efengyl, ond yr oedd hefyd yn ffurfio ac yn cario allan ei gynlluniau yn ei hol, yn gwybod am ac yn teimlo ei phwysigrwydd, a gwerth ei haddysgiadau, a'r gobeithion gogoneddus a ddeil allan i bawb sydd yn eu credu, ac yn gwybod trwy brofiad ei bod yn "allu Duw er iachawdwriaeth i bob dyn sydd yn credu."

Yn awr, proffeswn ni fod yn aelodau o'r un eglwys ag yntau, yn ddysgyblion i'r un Athraw, ac yn addolwyr yr un Duw ag yntau, ac yn yr un Efengyl o gariad, gwirionedd, a chyfiawnder. Gwyddom fod llawer yn y dyddiau hyn yn meddwl fod Cristionogaeth yr hen Efengyl yn annghysson â ffeithiau ac allan o *ddate*, oblegyd eu bod wedi cael allan fod rhai pethau yn y llyfrau Efengylaidd allan o gydgordiad ac yn annghymmodadwy â meddylddrychau y pedwerydd canrif ar bymtheg o wareiddiad. Gall hyny ymddangos felly iddynt hwy, ac y mae yr hyn sydd wedi cael ei ystyried fel iawnffyddiaeth yn cael ei siglo yn

y presenol hyd y nod i'w gwaelodion; ond nid yw hyny yn effeithio dim ar Gristionogion Undodaidd, y rhai ydynt wedi addunedu llw o ffyddlondeb i lynu wrth y gwirionedd, a dim ond y gwirionedd.

Ystyriwn ni fod Efengyl Crist yn parhau i fod yn "*allu Duw er iachawdwriaeth.* Nid oes genym ni ddim i'w ofni oddiwrth yr ymchwiliad mwyaf manwl, gonest, a beirniadol. Gan fod y gwirionedd felly wedi ei adeiladu ar graig sicr sylweddoldeb, gallwn gloddio i lawr yn eofn er gweled ei sylfaen, heb ofni niweidio na pheryglu yr adeilad; ond gan fod pob cyfeiliornad wedi ei sylfaenu ar y tywod, y mae yn sicr o syrthio. Ymddengys i ni, gan hyny, fod ein sefyllfa ni, y rhai a gredwn yn yr Iesu fel datguddiwr ac athraw crefydd barhaus ac arosol, yn ddyogel.

Ymddangosai agweddau y bywyd uwch i'r Iesu gyda'r eglurder mwyaf. Nid oedd allanolion, defodau, a seremonïau dileshad o ddim gwerth yn ei olwg ef. Yr oedd y cwestiynau y talai ef y sylw mwyaf iddynt yn annghymharol bwysicach ganddo ef nâ'r rhai yr ymrafaeliai yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn eu cylch. Y pethau uchaf ar ei feddwl, a'r rhai y myfyriai efe arnynt, oeddynt y rhai hyn:—Pa fodd i wneyd bywydau unig a thrist yn llawen? Pa fodd i sirioli dynion a menywod mewn amgylchiadau isel, darostyngol, a dirmygus yn ngolwg y byd, ac i beru iddynt deimlo fod y Tad nefol yn Dad iddynt hwy, ac yn gofalu am danynt? Pa fodd y mae i bawb feistroli a darostwng cnawdolrwydd a thrachwant, dial a malais? Pa fodd i feithrin ffydd yn Nuw ein Tad yn ngwyneb drygau a chroesau y byd? Pa fodd i fuddugoliaethu ar flinderon ac amheuon ac ofn angeu a'r bedd? Dyna beth oedd ei amcanion llywodraethol ef. Yr oedd yn ddigymhar fawr, a gwelai, nid yn unig fwy o wirionedd nâ dynion ereill, ond hefyd, yr oedd yn burach, yn felusach, ac yn uwch nâ dynion ereill, o ran ei foesau a'i fywyd. Yr oedd pob rhinwedd a daioni, cariad ac ewyllys da, wedi cydgyfarfod, ac wedi eu perffeithio yn ei ymddygiad a'i fywyd.

Gan hyny, gwelwn mai ein dyledswydd arbenig yw ymdrechu efelychu ei esiampl ef a chyflawnu ewyllys ei Dad ef a'n Tad ninau, fel y byddom, drwy hyny, o ryw fendith i'n hoes a'r byd. Gwir nad yw ein syniadau yn cael eu hystyried gan y lluaws yn iawnffyddol; ond y *mae* llawer o ddynion goleuedig y dyddiau hyn yn galw ac yn gofyn am ffydd well nag eiddo yr oesau tywyllion, a chredwn ni fod y ffydd hon yn eiddo i ni.

Bellach, cawn ddwyn ein sylwadau anmherffaith i derfyniad trwy ddyfynu ychydig eiriau o eiddo un sydd wedi marw yn ddiweddar, ond etto yn fyw ac yn llefaru, ac a barha i lefaru gydag awdurdod mwy neu lai dros yr oesau a ddeuant, sef Henry Ward Beecher, yr hwn sydd wedi gosod allan ei iawnffyddiaeth ei hunan a'n hiawnffyddiaeth ninau hefyd yn y dyfyniad hwn o'i eiddo:—"Yr wyf wedi dyfod i'r gydnabyddiaeth gyflawn â'r ffaith, sef, os yw llawer o bobl ereill yn iawnffyddiog, nad ydwyf fi. Yr wyf yn eithaf boddlon cymmeryd yr holl gyfrifoldeb a'r holl ganlyniadau o beidio bod yn hollol reolaidd yn fy ngolygiadau. Y mae fy heresi wedi rhedeg i'r cyfeiriad hwn—i feio pob peth sydd lai nâ chariad, ac i gyhoeddi yn iawnffyddol yr hyn sydd

yn gyflawn o Yspryd Dwyfol. Daethum at hyn yn araf; daethum ato drwy yr holl gyfyng-gynghor o addysg foreu, ac o ffyddlondeb angerddol i'r Eglwys, ac i dduwinyddiaeth fy nhad; ond daethum iddo, ac nid oes un grefydd ar wyneb y ddaear nas gallaf yn awr sefyll mewn cydymdeimlad â hi, naill ai o herwydd eu daioni neu eu hangen am ddaioni. Y naill ffordd neu y llall—cymmerwch hwynt yr ochr a fynoch—y mae lle i'ch cydymdeimlad, eich tosturi, a'r undeb hwnw alluogodd Iesu Grist, ar un llaw, i beidio bod yn ddigllon neu yn ffromedig wrth y Samariaid, ac ar y llaw arall, i geryddu ei ddysgyblion ei hun, a phob un o honynt am ei fod yn gul, yn rhanol, hunanol, ac annghariadus. Yr wyf yn dal nad oes ond un iawnffyddiaeth, ac mai bastardaidd yw pob iawnffyddiaeth arall. Iawnffyddiaeth y galon sydd yn caru Duw ac yn caru dyn i'r fath raddau, fel y mae yn foddlon dyoddef drosto, a dyoddef caledi er mwyn y cariad y mae yn ei ddwyn at ddynion—dyma y wir iawnffyddiaeth, ac nid oes un arall."

MOLWCH YR ION.

Mesur 10,10,11,11.

O molwch yr Ion, i'w enw rho'wch glod;
Am dano boed son tra dynion yn bod:
I Dduw y Creawdwr, rhoed pawb yn ddi-dawl,
Eu cân o glodforedd, eu cydgân o fawl.

Os draw o dan gudd mae ei orsedd wen fry,
Ei waith yma sydd yn amlwg i ni:
Mae'r byd yn cyhoeddi gwaith Duw yn ddi-daw,
Mae'r nef fry yn gweled ei lewyrch is law.

Mor rhyfedd, mor goeth, llywodraeth y byd,
Amcanion Duw doeth a welwn o hyd;
Yn mhob man y gwelwn dros fynydd a môr
Ddoethineb a chariad ewyllys ein Iôr.

BETH AM UNDODIAETH?

(*Parhad o dudalen* 205.)

Y mae rhai yn ymdrechu'n galed ac yn ddi-ildio i geisio rhoddi rhyw ystyr newydd i'r erthyglau a'r credoau, a dweyd nad ydym i ddeall yn gywir yr hyn sydd wedi ei ysgrifenu. Y mae hyn yn rhyfygus, ac yn *insult* i'r hen dadau, yn gymmaint a'u bod yn dweyd mewn effaith nad oedd yr hen seintiau ag y maent hwy yn

proffesu talu cymmaint o warogaeth iddynt yn gwybod eu meddyliau eu hunain, neu, o leiaf, ddim yn alluog i'w gosod allan mewn iaith glir a dealladwy. Ymddengys i ni nad yw ond ymgais i osgoi yr annghyssondeb sydd rhwng y gredo maent yn ddarllen fel offeiriaid yr Eglwys Wladol a'r gredo maent wedi ffurfio a gweithio allan o'u rheswm drostynt eu hunain, yn perswadio eu hunain nad oes dim yn annghymmodlawn rhwng y ddwy, ac yn suo eu cydwybodau i gysgu'n dawel ar wely pigog a draenog annghyssondebau. Darnio hen ddilledyn, a brethyn newydd ydyw, a cheisio ei droi allan fel newydd spon, ond fe fradycha y rhwyg gyntaf y twyll nad yw'r oll yn un dernyn. Gosod gwin newydd mewn hen gostrelau ydyw; ond nis gellir cuddio blas yr hen grwyn yn hir, ac y mae *process of fermentation*—cwrs yr ymweithiad—yn sicr o ddryllio'r hen gostrelau heb fod yn faith. Ofer yw ceisio pasio syniadau newydd dan gochl hen ymadroddion. "Y mae eich cyfaill wedi cael troedigaeth, onid ydyw, yn ddiweddar? Beth yw'r gwahaniaeth ynddo oddiar hyny?" "Wel," oedd yr ateb, "cyn ei droedigaeth, yr oedd yn arfer tori coed ar ddydd Sul, ac yn cario'r fwyell adref ar ei ysgwydd; ond yn awr, y mae bob amser yn ei chario o dan ei *got!*" Rhyw ragrith o'r fath hyn ydyw effaith anocheladwy ceisio pasio symmudiadau newydd o dan gochl hen ymadadroddion a chyffesiadau ffydd.

Er fod arwyddion o wrthwynebiad ac olgiliad yn duo'r ffurfafen weithiau, nid ydynt ond megys cymmylau bychain am enyd yn cuddio yr haul mawr ei hun. Y mae hyd y nod y Pab wedi ei amddifadu o warogaeth cenedloedd ag a fu unwaith yn eu llywyddu. Y mae'r byd gwareiddiedig a dysgedig yn dyfod yn hereticaidd, ac y mae eglwysi uniawngred yn sisial daliadau ag oeddent un amser yn cael eu hystyried yn beryglus iawn i iachawdwriaeth. Y mae egwyddorion Undodiaeth yn lefeinio yr holl does Uniawngred. Yn Ngheiriadur Crefyddau (Edited by Rev. W. Buchanan, B.D.), dywedir fod "Undodiaeth, yn ddiweddar, yn ffynu yn yr Eglwysi Annibynol dan amryw weinidogion, ac i fod nid ychydig o honynt yn Undodiaid." Dywedodd Mr. Spurgeon, ychydig flwyddi yn ol, fod "eglwysi y wlad hon yn llawn o Undodiaeth dirgelaidd." Dywedodd y diweddar Barch. H. W. Beecher, os oedd Cristionogion yn unrhyw enwad, eu bod yn mhlith yr Undodiaid, ac na ddyoddefai ef i un dyn daflu cerryg atynt. A dywedodd y diweddar Barch. H. Stowell Brown i'r un perwyl. Siaradai yr Hybarch Dad Hyacinth am Ddr. Channing gyda phob parch, a dywedai, "Ni ddymunwn ddysgu yr oll ydych chwi yn ddysgu, ond dymunwn fod fy enaid lle y mae yr eiddoch chwi." Dywedodd Father Taylor yn nghylch Emerson a Theodore Parker, os aent i uffern, y byddai i hinsawdd yr ardal yn sicr o newid, nes y byddai i lif ymfudiad yn fuan droi tuag yno!" Darfu'r Canon Fremantle, yn ddiweddar iawn, ddweyd o flaen Prif Ysgol Rhydychain y dylai Undodiaid gael eu hystyried yn Gristionogion, a'u bod yn deilwng o gydweithrediad crefyddol; ond cafodd ei ddwyn i gyfrif llym am ei heresi.

Ychydig flynyddau yn ol, darfu i Mr. Gladstone bigo allan Undodwyr fel arweinwyr meddwl yr oes bresenol. Dywedai eu bod yn

eithriadol dda, ac enwodd Dr. Martineau fel un o'r dysgawdwyr mwyaf philosophyddol, crefyddol, ac ysprydol, a gynnyrchodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sut y mae'n bossibl i un mor ryddfrydig, ac mor hynaws, a mor deg a Mr. Gladstone i adrodd yn ddifrifol y gredo sy'n dysgu y bydd yr hereticiaid hyn yn "ddiamheu fod yn golledig yn dragywydd" ar y Sul, ac ar ddydd Llun, ysgrifenu erthygl mewn misolyn i'w cymmeradwyo fel dynion mwyaf dysgedig, o gymmeriadau rhagorol, ac yn Gristionogion teilwng o bob parch ac efelychiad, 'dydi ni ag sydd wedi ein geni a'n magu mewn ffydd mwy Radicalaidd na'r eiddo ef, ddim yn alluog i amgyffred. Os nad yw'r pethau hyn yn llawer iawn eu pwys, y maent, er hyny, fel y bluen neu welltyn ar yr afon, yn dangos rhediad y dwfr, ac yn arwyddion eglur fod egwyddorion Undodiaeth yn myned i mewn i eglwysi Uniawngred fel dwfr trwy agenau gwagr rhidyll.

Wel, gyfeillion, beth yw ein dyledswydd yn ngwyneb yr amgylchiadau hyn—arwyddion mor obeithiol—er lledaenu yr Efengyl rydd a bendigedig sydd wedi ei ymddiried i ni?—Efengyl y cariad tragywyddol, ag sydd yn llywyddu tynghed dyn o'i febyd i'w fedd yn erbyn llid a digofaint Duw? Y mae'n llawn bryd i ni gymmeryd dalen o lyfrau enwadau ereill. Yn rhy hir yr ydym ni wedi bod fel rhaff o *swnd*, heb ddim *cohesion*—heb lynu wrth ein gilydd. Eisieu rhagor o undeb cydweithredol, fel enwad, sydd. Can' mlynedd yn ol, nid oedd Wesleyaeth ond mudiad bychan a dirmygedig yn ceisio codi llef i draethu ei neges yn ystrydoedd culion trefi a dinasoedd Lloegr; erbyn heddyw, y mae, nid yn unig yn enwad poblogaidd a pharchus yn Nghymru a Lloegr, ond y mwyaf lluosog o'r holl enwadau yn yr Unol Dalaethau, a hyny trwy undeb a chydweithrediad un eglwys â'r llall. Dysgasant i bwrpas wers yr hen felinydd i'w dri mab ar ei wely augeu. Ceisiodd ganddynt dori tri phren wedi eu cylymu yn nghyd; methasasant, ond gorchwyl hawdd oedd eu tori bob yn un ac un. Felly, mae nerth un cynnulleidfa yn cryfhau wrth ei gyssylltu â nerth un arall. Mae llwyddiant cyffredin yr achos yn anwyl gan bob eglwys, fechan neu fawr, tlawd neu gyfoethog. Casglant yn barhaus at yr Ysgol Sul, y Gymdeithas Ddirwestol, y Gymdeithas Feiblaidd, y Gymdeithas Gartrefol a Thramor, y gymdeithas i ddyrchafu gwybodaeth grefyddol, a llawer ereill. Hawdd yw i ni eu cyhuddo o *ideals* isel, a'u bod yn dirmygu y byd hwn er mwyn gogoniant y byd nesaf, a'u bod yn llawn o sel i achub paganiaid duon Affrig a thrigolion Môr De, ac yn esgeulus o'r afradlon a'r sotyn meddw sydd wrth y drws gartref. Yn taflu cerryg o dai *glass*, boed i ni eu gwneyd gydag amcanion mwy goruchel ac hunan-aberthol. Y mae Undeb Gweinidogion Undodaidd Sir Aberteifi yn gam yn yr iawn gyfeiriad. Mae'r Undodiaid wedi bod, ac yn bod, yn mlaenaf yn mhob peth ag y maent yn ymaflyd ynddo. Marsiandiaeth, Gwleidyddiaeth, Addysg, Gwyddoniaeth, Philosophyddiaeth, Hanesyddiaeth, Llenyddiaeth, Prydyddiaeth, a phob achos dyngarol a fuasai yn hawdd llanw tudalenau ag enghreifftiau, pe ba'i amser yn caniatau eu henwi. Ond meddyliwch am ymwelydd â Sir Aberteifi, heddyw, yn gofyn am yr amaethwyr goreu, sy'n cario'r

prizes yn yr *Agricultural Shows*, byddai Undodiaid yn mlaenaf yn eu plith. Pwy yw'r arweinwyr politicaidd? Cyfaddefa'r Methodistiaid nad yw yn bossibl ennill *election* heb gymborth a thalent yr Undodiaid. Beth am bwnc addysg? Y mae Undodiaid yn aelodau mwyaf defnyddiol y *School Board*, os yn y gymmydogaeth. Ai ni fyddai yn naturiol iawn iddo gasglu fod Undodiaeth yn flodeuog iawn fel achos mewn cymmydogaeth lle maent mor ddylanwadol a chyfrifol? Ond byddai yn gamsyniol, hyny yw, mewn cyfartaledd i'w dylanwad cyffredin yn y cylchoedd a nodwyd. Paham? O herwydd nad ydych wedi cyssegru eich galluoedd at eich achos crefyddol gyda'r un brwdfrydedd, ac undeb, a chydweithrediad. Yn mhob gwaith tymhorol, yr ydym ni wedi gwneyd peiriannau neillduol i fedi, dyrnu, a nithio, i gario allan eu dybenion pennodol, ac mae'n rhaid gwneyd yr un fath mewn pethau crefyddol, os ydym i gynnilo a chanol-bwyntio ein nerthoedd i gyfarfod gofynion yr oes, fel y dylem. Ac a gaf fi roddi gair o gynghor i'r brodyr gweinidogaethol sy'n gwybod eu gwaith yn well na mi? Dyma fe. Ewch rhagoch fyth, ffurfiwch ragor o gymdeithasau mewn cyssylltiad â'ch cynnulleidfaoedd; cyssegrwch fwy o'ch amser a'ch talentau at eich gwaith arbenigol i ledaenu eich egwyddorion; mwy o amser yn y llyfrgell; llai, os yn angenrhaid, ar y maes; mwy o ofal i fugeilio praidd, rhag i'r wyn tyner a gobeithiol grwydro i lwybrau dyeithr, a llai, os yn angenrhaid, ar y *platform* politicaidd; mwy o amser i gyssegru aelwydydd a theuluoedd â'ch presenoldeb, a llai ar y Bwrdd Ysgol, os yn angenrhaid. Ond rhaid yw gwneuthur y pethau hyn, ac na adewir y lleill heibio. Ac y mae'r foment hon yn gofyn cydweithrediad eich holl alluoedd meddyliol. Clywais sisial fod yr YMOFYNYDD ar drengu; yr unig fisolyn, yr unig bapyr yn Nghymru ag sydd yn cynnrychioli rhydd ymofyniad mewn pethau crefyddol, ac yn eu cario i blith Nicodemiaid nad ydynt yn ddigon dewr i ddyfod allan i oleu'r dydd. Fe fydd yn warth i chwi, frodyr, os goddefwch hyn. Y mae'r golygydd wedi ei gario yn mlaen, hyd yn hyn, o dan anhawsderau mawrion; a fy marn I yw, nad ydych wedi ei helpu fel y dylech. Ag ystyried y baich sydd ar ei ysgwyddau, y mae'n dda; ond nid yw yn deilwng o'n henwad a'n hachos yn yr oes hon, pan y mae llenyddiaeth yn dylanwadu cymmaint yn y byd. Rhaid ymddadrys o'r difaterwch, a dihuno o'ch cysgadrwydd. Y mae gweinidogion Undodaidd mor dalentog a dysgedig, ar y cyfan, a neb enwad; ac ni wnaf eich *insulto*, trwy ddweyd na ellwch gynnyrchu misolyn gwell, pe gosodech eich penau yn nghyd, oblegyd nid penau o'r un fath stwff a chyfeillion Sydney Smith sydd genych, a dyma un o'r peiriannau mwyaf defnyddiol i roddi i'r oes yr hyn y mae'n sychedu am dani.

Ac y mae'n rhaid i chwithau aelodau a chynnulleidfaoedd wneuthur eich rhan yn y gwaith fwy nag a wnaethoch yn yr amser a aeth heibio. Y mae anwybodaeth yn ffynu yn nghylch beth yw ein safon fel Cristionogion a'n daliadau fel enwad. Er enghraifft, O, 'dydi nhw ddim yn credu mewn Duw, nac yn y Beibl, nag yn Nghrist, ac ofnadwy meddwl nid ydynt yn credu yn y diafol; ac yn cael eu swmio i fyny, "Un Duw, dim diafol, ac ugain swllt yn y bunt." Credo fer, ond cynnwysfawr

iawn. Gyfeillion, rhaid bod yn llai diog a difater yn nghylch yr addoliad ar y Sul, a mwy gofalus am egwyddori'r plant, a'i gwreiddio'n ddwfn trwy gynghor ac esiampl i fod yn selog dros yr achos da, mwy parod i aberthu rhywfaint er mwyn egwyddorion mor ddyrchafedig. Nid oes arnaf fi ddim pryder yn nghylch Undodiaeth ond un, na fyddwn ni ddim yn ddigon brwdfrydig a ffyddlon i'r cyfleusderau a'r rhagorfreintiau ag sydd o fewn cyrhaedd. Os byddwn, sicr wyf y gwel yr hanner caurif nesaf fwy o lewyrch a llwyddiant ar ein hachos. Byddwn ymdrechgar a diwyd, ynte, gan wybod na fydd ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd.

GWRANDAWYR A GWNEUTHURWYR.

Dyweo Iago fod yn rhaid i ni *wneyd* y gair, ac nid ei *wrando* yn unig. Unrhyw wirionedd nas gall gael ei ddwyn i ymarferiad, nid y gair sydd yn cadw yw. Mor newydd, ac mor adfywiol, ac mor hynod ddyddorol oedd yn rhaid fod yr Efengyl ar y dechreu. Dim syndod ei bod yn ymdlangos yn rhoddi iddynt fywyd newydd, yn eu harwain hwynt i fyd newydd—yn rhoddi iddynt deimlad newydd. Tybiaf fod y Cristionogion yn aml, ac o dan bob amgylchiad, yn cyfarfod â'u gilydd i glywed unrhyw un a allasai ddywedyd wrthynt am ddywediadau a gweithredoedd Iesu. Ac yr oeddent yn dychwelyd adref yn nerthol ac yn ddedwydd. Yr oedd yn ymddangos fod y nefoedd oddiamgylch iddynt, a nefoedd oddifewn iddynt. Yn nerth y bara bywiol hwnw a ddaeth i waered o'r nef, yr oeddent yn gallu byw am lawer o ddiwrnodau a nosweithiau, hyd nes y delai cyfleusdra iddynt glywed rhagor. Felly, nid oeddent byth yn blino clywed. Yr oeddent yn esgud i wrando. Yr oedd y gair yn ymddangos iddynt yn fyw ac yn nerthol, yn llymach na chleddyf—yn treiddio i ddirgelion eu heneidiau.

Ond y perygl oedd y byddai iddynt gael y fath flas ar *wrando* y gwirionedd, nes y byddai iddynt esgeuluso ei roddi mewn ymarferiad. Yna, byddent yn twyllo eu hunain. Byddent yn credu eu bod yn Gristionogion, am eu bod mor ddedwydd wrth glywed am Dduw a Christ.

Ond pe na fyddai iddynt gario allan i'w bywydau eu gwybodaeth newydd, ni fyddent yn Gristionogion, wedi'r cwbl; o herwydd y mae Cristionogaeth yn cael ei gwneyd i fyny o wirionedd, yr hyn yw Crist yn y meddwl; a chariad, yr hyn yw Crist yn y galon; a daioni, yr hyn yw Crist yn yr aelodau. Goleuni heb wres yw Cristionogaeth yn

y pen yn unig. Gwres heb oleuni yw Cristionogaeth yn y galon yn unig; y llythyren heb yr yspryd yw Cristionogaeth yn yr aelodau yn unig. Nid yw Cristionogaeth yn gyflawn hyd nes y byddo'n cael ei gweled fel gwirionedd, yn cael ei charu fel daioni, ac yn cael ei harfer fel sylwedd.

Y mae gwrandawr yn myned i'r cwrdd, ac yn clywed pregeth ar dduwioldeb. Tra mae'n gwrando, y mae'n cael ei lanw â pharch at Dduw. Y dydd canlynol, y mae'n myned at ei waith, ac nid yw'n meddwl am Dduw trwy'r wythnos. Mae bendithion yn d'od; nid yw yn diolch i Dduw am danynt; pan y daeth allan o'r capel, gadawodd ei grefydd yn y capel.

Y Sul nesaf y mae'n clywed pregeth ar gyfiawnder a gonestrwydd. Y mae'n mawr ganmol y bregeth. Ond nid yw yn ei chanmol yn ei ymddygiad y Llun canlynol. Y mae'r dyn yn gwrando ar bregeth ar iawn ddefnyddio arian. Dyweda, "Dyna athrawiaeth iachus. Beth yw cyfoeth dda ond i wneyd daioni ag ef." Y mae'n cyduno â deddf haelioni ei bod yn dda. Y mae braidd yn teimlo'n hael ei hunan tra'n gwrando arni, ond y gwirionedd yw, fod ei gyfoeth yn cynnyddu bob dydd, a'i haelioni bob dydd yn myned yn llai.

Arferiad ofnadwy yw gwrando a pheidio gwneyd. Nis gallwn lai nâ chael ein caledi ganddi. Os nad ydym yn dwyn y gwirionedd a glywir genym i'n hymddygiad, y mae ein cydwybod yn myned yn llesg. Y mae'r gwirionedd yn arogl bywyd i ni pan yn ufuddhau iddo; ac yn arogl marwolaeth pan yn anufuddhau iddo. Bob tro y byddom yn gwrando ar bregeth, neu ar yr Ysgrythyr, dylem geisio meddwl am ryw ffordd i geisio dwyn y peth i ymarferiad. Y mae'r gwirionedd yn gleddyf daufiniog, yn treiddio yn gywir i'r meddwl a'r galon. Gan hyny, os nad ydym yn meddwl ufuddhau iddo, y mae'n rhaid i ni feddwl am rywbeth i droi ymaith ei ddylanwad. Yr hyn a ddefnyddir yn gyffredin yw esgusodion, ac y mae tiriogaeth esgusodion yn helaeth iawn. Y mae clywed y gwirionedd yn barhaus, a pheidio ei wneyd, yn cynnyrchu sefyllfa o hanner credu. Bob tro y byddom yn clywed gwirionedd ac yn peidio ei wneyd, y mae ein ffydd ni ychydig yn wanach bob tro. Ond pan yr ydym yn gweled dyn ag sydd yn wneuthurwr yn ogystal a gwrandawr, fel y mae ein cred ni mewn egwyddorion yn cael ei nerthu. Mor rhwydd y mae'n ymddangos i wneyd yr hyn sydd iawn. Dyma'r dynion sydd yn pregethu'r Efengyl oreu. Y maent yn gwneyd gwirionedd yn beth sylweddol.

Dynion sydd yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni sydd yn pregethu'r Efengyl oreu. Cristionogaeth ymarferol sydd yn peru i'r byd syrthio mewn cariad â daioni. Ac yr ydym yn meddwl y gallwn ni ddywedyd fod crefydd yn dyfod yn beth mwy ymarferol bob blwyddyn; fod gwaith yn cymmeryd lle'r hen ymrafaelion duwinyddol; ac yn y fel yna, ni a allwn edrych yn y blaen gyda gobaith ar yr amser pan y bydd crefydd meddwl a chalon wedi cael eu huno â chrefydd cyfiawnder a ffyddlondeb yn mhob dyledswydd. C.

GWRON RHYDDID.

Nid dymunol ydyw'n siwr,
Yn ei wyneb ganmol gwr;
Ond naturiol yw i fardd
Ganmol egwyddorion hardd.

Gweddus ydyw canu cân
I ddewr Wron Rhyddid glân;
Teithi bywiol gwlad y dydd
Lywiant enaid gwladwr rhydd.

Tad a phriod tyner yw,
A chymmydog o'r iawn ryw;
Cymmrawd twymgar megys brawd,
Gydymdeimla â'r dyn tlawd.

Dyn i'w air, a gelyn twyll,
Hawddgar, siriol, mawr ei bwyll,—
Lleddfu blinder gwlad a thre'
Yw ei wynfyd penaf e'.

Gwron Rhyddid, serchog frawd,
Wrth lais iawnder drefna'i rawd;
Mae ei ymgais a'i holl fryd
I lwyr ddedwyddoli'r byd.

Fel gwir Gristion mae ei gais
Am ddynoethi pob rhyw drais;
Gwr o hardd ymddygiad yw,
'N parchu dyn, ac ofni Duw.

CYNONWYSON.

HUNAN-YMCHWILIAD.

Y MAE gan ddyn y gallu rhyfeddol o chwilio ei hunan. Gall sefyll ar wahan oddiwrtho ei hunan ac edrych arno ei hunan. Gall farnu ei hunan, gall gael allan ei feiau ei hunan, eu haddef, a chodi uwchlaw iddynt, ac yn y diwedd eu gorchfygu. Y cam cyntaf i fyw yw cael gwared ar hunan-gyfiawnhad ac esgusodion, a boddloni gweled ein hunain fel yr ydym. Y mae mewn dyn hefyd y gallu rhyfeddol i fabwysiadu amcan ardderchog a cheisio ei gyrhaedd er gwaethaf pob rhwystrau. Y mae bwriad parhaus braidd yn sicr, yn y pen draw, o orchfygu. Gallu ag sydd yn perthyn i ddyn yn unig yw hwn. Y mae gan anifeiliaid eu hamcan, ac y maent yn gweithio gyda bwriad, ond mor bell ag ydym yn gallu gweled yr un amcan sydd gan bob dosparth o anifeiliaid, yn mhob gwlad ac yn mhob oes. Nid ydynt yn ceisio gwella eu hamgylchiadau. Ond gall dyn ddywedyd, "Cyflwynaf fy mywyd i gasglu cyfoeth, i gyrhaedd doethineb a dylanwad," neu gall ddywedyd, "Gwnaf hi'n nod fawr fy mywyd i dyfu, i ffurfio caractor ardderchog, caiff pob peth arall fod yn is-wasanaethgar i'r amcan mawr hwn."

Trwy hunan-ymchwiliad yr ydym yn cael fod yna allu oddifewn ini, trwy'r hwn y gallwn ni obeithio gorchfygu drwg. Y mae i bob un ei ochr dda, tueddiad i fyny. Mae llygredd cyflawn y natur ddynol yn ffolineb ac yn anmhossiblrwydd. Os oes yna lygredd etifeddiaethol, y mae yna hefyd ryw ddaioni etifeddiaethol. Nid yn unig y mae'n mhob dyn ryw wendid neillduol, ond y mae hefyd yn mhob dyn ryw nerth a gallu neillduol. Y mae'r un mor bwysig, y mae'n llawn cymmaint o ddyledswydd, i gael allan yr ochr dda i'n caractor a chael allan yr ochr ddrwg iddo, o herwydd y mae eisieu hyn arnom yn galondid ac yn gynnorthwy. Y mae'n gymmaint o ddyledswydd ddangos i blant

a phobl ieuainc eu rhinweddau, ag yw dangos iddynt eu beiau. Gwna y rhai hyny nad ydynt yn ein caru chwilio allan ein beiau; y mae arnom eisieu i'r rhai hyny ag sydd yn ein caru i ddywedyd wrthym hefyd yr hyn a ddylem a'r hyn a allwn wneyd.

Os oes genym oll ryw bechod ag sydd yn rhwydd yn ein gorchfygu, y mae genym oll hefyd ryw ddaioni ag sydd yn barod i'n cynnorthwyo. A thrwy roddi maeth i'r ochr dda i'n bywyd yr ydym yn gorchfygu y ddwy. Os ydym ni'n cael ein hamgylchynu gan brofedigaethau, y mae yna ddylanwadau oddifewn ac oddiamgylch ini, ac y maent yn fwy nerthol na'r hyn ag sydd yn arwain i ddrwg "lle'r amlhaodd pechod, rhagor yr amlhaodd gras." Pe na fyddai am hyn, byddai bywyd yn rhy galed, a dyledswydd yn rhy anhawdd. Un o'r dylanwadau goreu a mwyaf bendigedig i ddaioni yw cymdeithas dynion da, dynion gwell na ni ein hunain, y rhai hyny ag sydd yn myned ar hyd y ffordd iawn. Bydded i ni gan hyny geisio amgylchu ein hunain a phob peth da a allom gael gafael ynddo—cwmpeini da, llyfrau da, gwaith da—o herwydd y mae y rhai hyna'n nerthu ochr oreu ein caricter.

Ond yr uchaf a'r goreu o bob dylanwadau yw yr un hwnw ag sydd yn dyfod i ni pan yn rhodio'n mhresenoldeb ein Tad Nefol; pan yn gallu ymddyddan ag ef fel à chyfaill; pan fyddom yn gwybod ei fod ef yn ein caru ni; ac fod ei yspryd yn barod i'n cynnorthwyo. Yr ydym bob boreu yn dechreu diwrnod newydd, yn ystod yr hwn yr ydym i gyfarfod a pheryglon, dyledswyddau, cyfleusderau anadnabyddus—yn ystod yr hwn y gallwn ni wneyd da neu ddrwg i'r rhai sydd oddiamgylch ini. Y fath wahaniaeth a wnelai pe byddai i ni bob boreu edrych i fyny, agor ein calonau, ceisio am dywysiad, dylanwadau da, yspryd da, oddiwrth y gallu Dwyfol hwnw ag sydd bob amser yn dysgwyl am le i fod yn drugarog, yn dysgwyl hyd nes y byddo i ni roddi iddo ef gyfleusdra i'n benditbio; yn curo wrth ddrws ein calonau hyd nes y byddom ni'n foddlawn agor ein calonau i'r hyn sydd fwyaf tyner a bendigedig yn y byd. O bob daioni, ei ddaioni Ef yw y mwyaf parod i gynnorthwyo dyn. Y mae pob daioni arall yn amheu ac yn oedi. Y mae Ef yn dysgwyl am le i fod yn drugarog. Y mae daioni ein cyfeillion goreu weithiau'n blino, ond nid yw ei ddaioni Ef byth yn cael ei flino allan hyd y nod gan ein ffolineb a'n pechod. Nid yw y galon ddynol oreu a mwyaf ardderchog yn barod bob amser i gyfarfod a'n hangen; ond y mae cariad Duw bob amser wrth law yn ei gyflawnder eithaf. C.

POST-CARD SYMPOSIUM.

PWNC—BETH YDYW ELFENAU ANHEBGOROL EMYN DA?
SUBJECT—WHAT ARE THE ESSENTIAL ELEMENTS OF A GOOD HYMN?

Ar dudalen 206, yn nghystadleuaeth y Deg Emyn, rhoddir ddwywaith 146, yn lle 147. Nid yw 146 yn un o'r dewisolion. Y deg emyn dewisol oeddynt:—96, 140, 143, 147, 176, 201, 211, 337, 341,

350. Yr ydym yn deall nad yw y dewisolion ddim yn boddio pawb. O'r braidd y dysgwyliem hyny; ac y mae yn ddigon sicr genym y byddai peth gwahaniaeth gyda rhagor o gystadleuwyr. Nid ydym yn gallu cydsynio â'n cyfaill, Mr. D. Jones (tud. 209), fod Iolo ar ol yn y gystadleuaeth, fel y mae. Y mae Iolo ar y blaen—y mae ganddo ddau emyn, tra nad oes gan neb arall ond un.—GOL.

Nid yw y gystadleuaeth yn fy moddio I yn y *result;* ond y mae yn bossibl nad wyf fi ddim yn iawn. Y deg emyn *goreu* a geisid, ac nid y deg mwyaf hoff. Yr wyf fi yn hoff iawn o 140, ond nid wyf yn ei ystyried yn un o'r deg goreu. Yr wyf yn hoff iawn o 211, ond o'r braidd y daw i fyny o gwbl i'r hyn y dylai emyn fod yn fy ngolwg I. Nid yw yn cynnwys na Mawl na Gweddi. Dywed Sant Awstin, "Dylai emyn fod yn fawl—mawl i Dduw, a hyny ar ffurf cân." Mae emyn 348 yn gân dda; ond braidd y gellir ei gyfrif yn gân o fawl i Dduw, yn ol yr hyn y mae St. Awstin yn ei ofyn. Saif emyn 10 yn uwch yn fy ngolwg I yn yr elfenau a wnant emyn da. F. E.

Mae y pwnc yn helaeth. Dylai emyn gynnwys yspryd y peth byw; os yn cynnwys hyny, ni charwn I wneuthur y terfynau yn gul. Canu mawl, os myner, ond gellir hyny mewn amrywiol ffurfiau. Gall yr hyn a ganwn *am* Dduw gynnyrchu yspryd mawl yn fynych, yn llawn cystal a'r hyn a genir i Dduw; hyny yw, mae'r myfyrdodol yn ateb yr un pwrpas a'r moliannus, neu yr emyn sydd yn cynnwys clod uniongyrchol. Etto, am yr emynau a gyffyrddant â'n profiadau personol, mae iddynt amrywiaeth ffurfiau. Cyffyrddant â dyn yn ei wahanol dymherau, a'i wahanol amgylchiadau, ond yn wastad gyda'r un duedd —ei ddyrchafu i awyrgylch dawel a chlir y Presenoldeb Dwyfol.

M. M.

"Mi allaswn I ddewis gwell 'deg' emyn i fy moddio I, nâ'r deg sydd wedi eu gwneuthur yn etholedigion gan y 42 fuont yn cystadlu ar faes YR YMOFYNYDD. Buaswn I yn dewis ar ryw egwyddor tebyg i hyn:—Un emyn goreu ar bob pwnc. Ni fuaswn yn cymmeryd dau o'r un nodwedd. Rhywbeth tebyg i hyn fuasai fy newisolion I:—1, 2, 60, 62, 83, 189, 193, 207, 215, 330. Yn awr, mae yn eithaf possibl y bydd y 42 yn annghytuno a minau. Yr wyf yn ystyried fod yma fwy o amrywiaeth nag oedd yn y 'deg' a aethant i dop y *poll.*"—SION.

"Gofynir beth ydyw elfenau angenrheidiol emyn da. Atebaf finau (1) yn nacaol, ni ddylai emyn gael ei wneuthur ar lun pennod o

dduwinyddiaeth, neu gorff o athrawiaeth; ni ddylai fod yn awgrymiad o amrywiaeth barnau duwinyddol, megys Trindod, pechod gwreiddiol, baeddiant, cosp dragwyddol, ac ni fyddaf fi yn caru'r emynau am y gwaed. (2). Dylai emyn fod fel tôn, yn gyfryw ag y gall pawb ei ganu o bob enwad; dylai gydio yn llinynau y galon, a'i helpu yn nghyfeiriad mawl a gweddi; dylai'r mawl fod i Dduw, fel ffynnon pob doethineb, pob daioni, pob gras; a'r weddi fod yn ddyhead calon wresog am help a chyfarwyddyd, am nerth ac am ddyddanweh, ac am yspryd ymostyngiad i'r ewyllys, y gallu a'r cariad tragwyddol; dylai gynnyrchu llawenydd a gorfoledd, neu dawelweh a thangnefedd."—R. JOHNSON.

"Yr wyf yn meddwl nad yw ein hemynau ni, yn y cyffredin, ddim yn hollol i fyny i'r peth y dylent fod. Maent yn cario gormod o swn syniadau ydynt wedi eu gordyfu. Mae gormod o Ddyffryn Baca ynddynt. Gwir fod Dyffryn Baca yn y profiad dynol, ond y peth wyf fi am i'n hemynau ni fod yw—yn fwy o adlewyrchiad o'n syniadau rhesymol, goleuedig, cyssurus—yn adlewyrchiad o Grist yn fwy nag o Adda. Nid wyf am gau allan a cholli golwg yn hollol ar lyn wylofain; ond bydded yr emynau fel bywyd. Mae mewn bywyd fwy o ddyddiau dysglaer nag o ddyddiau tywyll. Pam na fyddai ein hemynau yn fwy o adlewyrchiad o'r Tad, a'r Cariad, y Crist, a'r Nefoedd?"—X.Y.Z.

"Elfenau emyn da ydynt (1) O ran ffurf; corfaniad cywir, rhediad llithrig ac esmwyth, heb fod yn rhy hir, ac o fesur ac acen atebol i'r pwnc. (2) O ran geiriad; yn weddus, ac yn deilwng o'r achos. (3) O ran syniad; yn rhydd o bob yspryd enwadaeth, nid yn canu y pump pwnc, na'r namyn un erthygl a deugain. (4) O ran yspryd; yn ddangoseg o amrywiaeth teimladau calon ddefosiynol, pan yn ymgyfeirio at Dduw; ac nid yn unig amrywiaeth un galon, ond pob calon. Am hyny, nid yw yn ddichonadwy i un person gyfansoddi yn y fath fodd ag i gyfarfod ag holl amrywiaeth profiadau gwahanol ddynion. Gall un offeryn cerdd chwareu amrywiol dônau, ond fe fydd yna unrhywiaeth yn yr amrywiaeth; rhaid cael amrywiaeth yn y dynion i sicrhau y cyflawnder o amrywiaeth doniau. Mae i bob offeryn ei sain (*timbre*) ei hun, y *flute*, y *violin*, y delyn, &c. Felly hefyd y mae amrywiaeth llawn cymmaint yn nghyfansoddiadau gwahanol bersonau: Davis, Williams, Islwyn, Evans, Thomas, &c., ond oll yn cynnyrchu yr hyn a ddichon fod yn help i 'bererinion Seion ar eu taith tua'r Ganaan Nefol.'"—J. JONES.

"A good hymn should above all things contain thoughts that are in accord with the sweet simplicity of the Gospel, and be free from the

revolting ideas of a Hyper-Calvinism. We should have nothing in it that robs God of his high character of Father, and its tendency should always be to uplift man and to bring him into closer fellowship with his heavenly Father. It must also be rhythmical and grammatical, must not be disfigured by vulgar and loose phrases. The best hymns express the longings of the soul, and they awaken in man aspirations after the highest and noblest. I may be permitted to say that the influence of the best and sweetest hymn-writers on the religious thought and feeling of the age has been inexpressibly great."—GEORGE EVANS, Chesterfield.

"Mae gwerth emyn yn dybynu ar y *lifting power*—y gallu i ddyrchafu fyddo ynddo, ac y mae y *lifting power*, neu y gallu i ddyrchafu, yn gorphwys yn addasrwydd yr emyn at syniadau ac at gyflwr meddwl a theimlad y person. Gall fod gan emyn allu i ddyrchafu ar un person a dim ar un arall. Felly, nid yr un fydd y goreu i bawb, ac nid yr un fydd y goreu i'r un person ar bob amser ac yn mhob cyflwr. Fel rheol, nid yr un emyn fydd yn swyno'r plentyn â'r hen wr, y dysgedig a'r annysgedig, y Calfiniad a'r Arminiad, y Trindodwr a'r Undodwr, y dyn mewn trallod a'r dyn mewn sefyllfa gyssurus. Yr unig elfen anhebgorol yw, *addasrwydd* at yr amcan, a'r amcan i'w dyrchafu."—TUBAL CAIN.

"Golygir i emyn fod er gwasanaeth cynnulleidfa o Gristionogion, a'r emyn goreu fydd yr un a wasanaetha'n oreu amcan mawr y gynnulleidfa fel cyfrwng ei haddoliad. Dylai gynnwys mawl neu addoliad, naill ai yn y ffurf o glod neu weddi. Dylai'r iaith fod yn syml, a'r geiriau redeg yn esmwyth a llithrig. Gall y mesur amrywio, ond ni ddylai yr emyn fod yn rhy hir. Bydd pwnc yr emyn yn amrywio i ateb yr amgylchiad; ond gyda phob pwnc, ni ddylid esgeuluso'r *myn'd*—yr awel fydd yn dwyn iechyd i'r galon, a nerth newydd i'r ysbryd."—IOLO.

"Y rhai canlynol ydynt elfenau anhebgorol emyn da, yn ol fy marn I:—Dylai fod (1) yn syml a naturiol, (2) ystwyth a chanadwy, (3) defosiynol ac addoliadol."—O.M.

"Qualities of a good Hymn.—Deep religious feeling expressed in simple, and at the same time, refined language, thrown into a metrical form, which will enable it to be sung by an uneducated child or adult to a tune which would not offend the taste of the most reverential among the masters of the science of music. Every image employed and each thought expressed, should be such as are calculated to elevate or quicken our most spiritual conceptions of God and His relation to His human children."—CHARLES SEARLE, Merthyr Tydvil.

(1) "Rhaid i emyn fod yn *farddoniaeth*, nid yn unig o ran hyd a lled, ond o ran ei hanfod a'i sylwedd. Nid pobpeth ar wedd farddonol sydd farddoniaeth. Peth cyffredin yn Nghymru ydyw *cwncyddiaeth* farddonol, ac mae llyfrau emynau pob enwad, hyd y nod y goreu o honynt, yn tystio yn ddigon eglur i'w fodoliaeth. (2) Rhaid i emyn fod yn *syml*, hawdd ei deall, ac yn appelio'n uniongyrchol â chyffyrddiad tyner natur at deimladau pob dosparth mewn cymunlleidfa. Mae emynau Iolo Morganwg yn tra rhagori mewn llawer o ystyriaethau ar ddim ag y gwn I am dano mewn emynyddiaeth Gymreig, ond credwn eu bod yn ddiffygiol yn yr elfen anhebgorol hon o symledd. Gofynant ymdrech meddwl i'w deall, ac i'm tyb I, ni ddeffroant y *response* parod hwnw mewn cymunlleidfa sydd yn gwneyd caniadaeth y cyssegr yn ysprydoliaeth fyw yn eu calonau. Gyda'r argyhoeddiad hwn, nid yw o gwbl yn syndod i mi, fel ag y mae i rai, mai dim ond dau allan o ddeg o'r emynau dewisol yn y gystadleuaeth dliweddar yn YR YMOFYNYDD sydd yn perthyn i Iolo. (3) Rhaid i emyn fod yn amlygiad o'r reddf grefyddol yn mynwes dyn sydd yn peru iddo deimlo angen ei bun i hiraethu am Duw, am gydffurfiad ac ymostyngiad i ewyllys Duw, i edrych allan o'r byd cyfnewidiol a darfodedig hwn, i'r byd anweledig a tragwyddol, ac yn nghanol gwendidau a siomedigaethau y daith ddaearol, i ymwroli yn nerth bywyd annherfynol. Nid càn foesol ydyw emyn. Mae canenon moesol yn burion yn eu lle; ond nis gallaf lai nag addef (dichon mai arnaf fi mae'r bai) fod canu

> 'Gau ofnau'n ffoi mae'r drygddyn ffol,
> Heb neb yn ymlid ar ei ol,
> Ymguddio mewn tywyllwch tew,' &c.

yn swnio hytrach yn aunghyduaws a dyeithr i mi yn addoliad Duw. (4) Dylai emyn fod yn amlygiad o grefydd yn ei hagweddau cyffredinol; dylai ein codi ar ei edyn i awyrgylch lle mae pob gwahaniaeth sect a chredo yn ymgolli yn agosrwydd y Presenoldeb Dwyfol, ac yn meddwl cymmunleb yr enaid â Duw. Nid agwedd iawn mewn addoliad ydyw agwedd y duwinydd a'r athronydd sydd yn ceisio mesur a darnodi gwrandrych eu haddoliad; ond yn hytrach agwedd y plentyn bach nad yw'n deall fawr am ei fam, ond yn teimlo eu bod yn llawer mwy, llawer yn ddoethach nag ef ei hun, ac fod yna drysorau cariad yn ei chalon sydd yn ddigonol ar gyfer ei holl wendidau a'i hangenion. Cywnais uawaith gredo Sant Athanasius yn cael ei *chanu* yn ngwydd cynnulleidfa fawr, ac yr oeld yr holl olygfa yn ymddangos yn chwithig i mi. A phe byddwn yn clywed y darnau emynau a ganlyn yn cael eu canu,—

> 'A bywyd tragwyddol yw 'nabod
> Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.'

> 'Un yw'r Bôd Mawr, Un yn ei sylwedd,
> Nid bod ond ei fodoldeb Ef;
> Un yn wir un, mewn Undod rhyfedd,
> Nid Undod ond ei Undod Ef.'

buasai yr un teimlad, er nad efallai gyda chymmaint o nerth, yn fy nghymmeryd i fyny, a buaswn yn barod i ddweyd, "Ydwyf fi ddim am eich *definitions* chi; mi arosaf fi yn foddlawn gyda dirgelwch hanfodol y Tad yn fy amgylchynu o bob cyfeiriad, tra yr wyf yn teimlo ei law yn gafaelyd yn fy llaw fy hun, ac yn fy arwain trwy'r tywyllwch i oleuni dadguddiadau eglurach o hono ei hun." W. J.

"Mae clod nid bychan yn ddyledus i gychwynwr y gystadleuaeth, pe byddai dim ond i ymchwilio a myfyrio mwy ar yr YMOFYNYDD a'r Llyfr Mawl a Gweddi. Ond credwyf fod rhagor na hynyna mewn cyssylltiad â'r pwnc. Fel derbyniwr cysson o'r YMOFYNYDD, yr wyf wedi cael llawer iawn o ddyddordeb yn y cyfryw gystadleuaeth, er na ddarfu i mi ond spotio tair o honynt yn y gystadleuaeth olaf.

"Diamheu na fyddai y fath gystadleuaeth yn llesiol iawn yn y dyfodol, drwy ei dal i fyny nes cael rhyw rif pennodol o gystadleuwyr, ac yna, penderfynu Deg Emyn, fel y deg cyntaf, ac yn y blaen, nes cael, er enghraifft, gant o emynau wedi eu dewis gan fwyafrif o'r cystadleuwyr. Carwn weled yr un egwyddor yn cael ei chario yn y blaen gyda golwg ar ddewis tonau cyfatebol i'r emynau. Hwyrach y byddai hyny yn hwylusdod mawr yn nghaniadaeth y Cyssegr, ac yn enwedig mewn canu undebol, mewn cymmanfaoedd, megys cyrddau blynyddol a chwarterol yr enwad. Fel y mae yn wybyddus i'r rhan amlaf o ddarllenwyr y "Llyfr Mawl a Gweddi" presenol, mae ynddo lawer iawn o emynau ar yr un mesur; gellir hebgor eu hanner (nid o ran eu teilyngdod), ond er rhoddi gwell mantais i'w dysgu, o herwydd eu bod yn ychydig. "Pa fwyaf bo'r maes, mwyaf bo'r llafur;" felly, mae amryw o emynau yn gofyn amrywiaeth o donau. Meddyliwn, er enghraifft, fod naw o emynau ar wahanol fesurau, a thôn ar bob un o honynt yn cael eu dysgu genym; byddai yn bossibl i ni eu dysgu yn dda, ond tra fyddai naw neu ddeg ar yr un mesur, fel y maent yn y Llyfr presenol (os wyf yn iawn), byddai yn ofynol cael yr un nifer o donau, yn ol archwaeth yr emynau, a thrwy hyny, yn bylcho y gelfyddyd ar ganu, ac yn rhoddi gormod o lwyth i'r cof yn nglyn â phethau ereill.

"Carwn yn fawr weled llyfr yn cynnwys y tonau a'r emynau mewn un plyg, a hyny ddim llawer mwy na'r "Llyfr Mawl a Gweddi" presenol. Byddai yn llawer hawddach cario un llyfr, na rhyw hanner dwsin o lyfrau, fel y gwneir yn bresenol, cyn y gellir cael tonau i gyfateb yr emynau sydd yn ein llyfr presenol. Gobeithio yr ymafla un mwy galluog â thraethu yn helaethach ar y pwnc. 'Nid oes dim heb lafur a chost.'"

Trebanos. H. MORGAN.

NODYNAU GWASGAROG.

LITANI.

Ni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, O Arglwydd Dduw; ac ar i Ti o'th fawr drugaredd gadw a rhoddi a llywodraethu dy Eglwys lân gyffredinol yn y ffordd union; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, O Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti fendithio a chadw dy holl bobl; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, O Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti roddi i'r holl geneiloedd undeb a thangnefedd a chydgordiad; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti roddi i ni galon i'th garu ac i'th ofni Di, ac i fyw yn ddiosgeulus yn ol dy orchymynion; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti roddi i'th holl bobl ychwaneg o ras, i wrando yn ufudd dy air, ac i'w ddeuyn o but ewyllys, ac i gynnyrchu ffrwyth yr Ysprydd; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti nerthu y rhai sydd yn sefyll, a chomforddio a chynnorthwyo y rhai sy â gwan galon, a chyfodi'r sawl a syrthiant; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando ni, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti gynnhorth, helpu, a dyddanu pawb a'r y sydd mewn petygl, angenoctid, a tiraflod; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti gadw pawb a'r y sydd yn ymdaith ar for neu ar dir, yob c'eulion a rhai lychaw, a thosturio wrth bawb a fyddont mewn caethiwed a chrochar; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti drugarhau wrth bob dyn; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti faddau ein gelynion, a'r rhai a'n herlidiant, ac a ddywedant ddrwg yn ein erbyn, a throi ein calonau; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti roddi a chadw er ein lles amserol ffrwythau'r ddaear, modd y caffom mewn amser dyledus eu mwynhad; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

Ar ryngu bodd i Ti roddi i ni wir edifeirwch; a maddau i ni ein holl brechodau, ein hesgeulusdra, a'n hanwybod; a'n cynnysgaethu â gras dy Ysprydd Glan i wellhau ein buchedd yn ol dy Air Sanctaidd; *Nyni a atolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd daionus.*

GWEDDI O WAITH ST. CHRYSOSTOM.

Hollalluog Dduw, yr Hwn a roddaist i ni ras y pryd hwn, trwy gyfundeb a chydgyfarch, i weddio arnat; cyflawna yr awr hon, O Ar-

glwydd, ddymuniad a deisyfiad dy weision, fel y bo mwyaf buddiol iddynt; gan ganiatau i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol. Amen.

AT OLYGYDD YR YMOFYNYDD.

Barchedig Syr

Nid iw y "gohebydd serchog a charedig y cyfeiriwch atto yn yr Ymofynydd diweddaf (Medi) wedi llwyr anghofio y sylwadau hyny a wnaethpwyd gan ŵr parchedig ar y geiriau "Tyred, a gwel"., ond a barnu wrth yr Ymofynydd diweddaf, gallaf feddwl nad ydyw Golygydd Yr Ymofynydd yn cofio dim o'r cyfryw; neu, os ydyw, nid ydyw yn ewyllysio gweithredu yn unol a hwynt; mai y grediniaeth hyn yn cael sail yn eich ymddygiad yn cyhoeddu yn yr Ymofynydd yn unig ran o lythyr y "gohebydd serchog" fel y dywedasoch, a thrwy hyny yn gosod darllenwyr yr Ymofynydd yn fanteisiol i dynu camgasgliad ohono; hefyd gall darllenwyr yr Ymofynydd gasglu oddiwrth eich sylw na ddarfu i chwi wrthod fy ysgrif, ond eich bod yn boddloni iddi ymddangos rhyw amser, felly dymynaf hysbysu y darllenwyr mai nid gwir hyn, ond iddi gael ei gwrthod, oblegid ni ofynais ir ysgrif gael ei dychwelyd ond ar y tir os na "fedrau drws yr Ymofynydd roddi agoriad," yna dychwelwyd yr ysgrif, dychweliad yr hon oedd yn cadarnhau na fyddau iddi gael ymddangos o gwbl yn yr Ymofynydd. Yr ydwyf or farn mai nid ysgrifau o'r un natur sydd yn ofynol i fisiolyn, wythnosolyn, a dyddiadur, ac ar y tir hwn yr oeddwn yn barnu yr ysgrif "Treulio'r Gwyliau," yn awr gan mai hyn oedd fy marn, carwn wybod pa fodd y galloch fy ngyhuddo o roddi cerydd i chwi; gan na wnaethum ddim or cyfriw beth mai lle i gasglu fod yr hen ddywediad yn cael ei wireddu, sef, fod "Yr euog yn ffoi heb ei erlid"; *pregetha* rai ryddid, ond nid mor rhwydd y gwnant *ganiatau*: ffurfiwch farn, ac os byddaf yn wahanol i chwi, ymdrechwch gytuno i anghytuno a gadewch heibio anian y Pab.

Dywedwch "nad oes neb yn fwy parod na chwi i gydnabod eich bod wedi gwneuthur rhai camsyniadau," felly ar y tir hwn ceisiaf genych ganiatau ir ychydig hyn gael ymddangos yn yr Ymofynydd, ac felly cydnabyddwch y camsyniad hyn or eiddoch.

Lampeter · LEWIS. D. JONES

[Wrth sylwi ar YR YMOFYNYDD diweddaf, tud. 208, fe wel y darllenydd na ddarfu i ni enwi na lleoli y gohebydd crybwylledig; a phe cawsem ni ein ffordd i actio yn ol ein doethineb ein hunain, buasem wedi celu'r enw y tro hwn etto; a chredwn y buasem, wrth hyny, yn gwneuthur cymmwynas â'n darllenwyr, a charedigrwydd ag enw da ein gohebydd. Gan fod ein cyfaill, fodd bynag, mor awyddus i draethu "ei farn," wele yr ydym yn gadael iddo ffordd rydd, a boed iddo ef yr oll o'r *credit*. Ni wnawn ni ychwanegu ond hyn, ein bod yn credu—dyma'n barn *ni*, barn ddigon dibwys ar y goreu—fod ei gasgliadau yn hollol annghywir a'i ensyniadau yn anngharedig.—GOL.]

Y PARCH. R. J. PLATER

Oedd gurad Sant Awstin, yn Penarth, ger Caerdydd; ond nid megys yr oedd y mae hi bob amser yn Eglwys Lloegr, er cymmaint ei sefydlogrwydd. 'Dyw Mr. Plater ddim yn gurad heddyw. Er mor ddysgiaer ei dalentau fel pregethwr, er mor *boblogaidd* a llwyddiannus fel gweinidog ei eglwys, 'doeddi y rhinweddau hyn o un cyfrif pan y daeth i glustiau y Ficer—y Parch. C. Parsons—yr hwn oedd wedi bod yn absenol am gryn amser o herwydd afiechyd, ei fod yn euog o bregethu heresi. Gall ficeriaid, rheithoriaid, deoniaid, ac esgobion bregethu braidd beth fynont; ond gwae i'r curad sydd wedi dygwydd meddwi mewn tuallau i derynau y namyn deugain erthygl, ac yntau yn gwasanaethu o dan ficer nad yw wedi meddwi erioed ryw lawer ond hyn—fod credoau'r eglwys yn ddigon *right* at un pwrpas, a bod yntau yn cael ei dalu yn dda am eu hamddiffyn. Pe byddai Mr. Plater wedi cael *living*, gallai bregethu braidd faint a fynai o heresi, a chlicio ei fysedd yn ddyogel ar holl gredoau ac awdurdodau yr eglwys i gyd. Mae cannoedd o efficiriaid yn gwneyd hyny heddyw. Ond

'DYW Y CWRS HWN DDIM YN *safe*

i guradiaid llawd a dinod. Mae llawer o honynt hwy yn ddiamheu yn gorfod cerddied, darugelu, a llyncu eu hargyhoeddiadau; ond unwaith y llwyddant i gael *living* iddynt eu hunain, maent yn rhoi *fling* iddi wed yn. Yr oedd argyhoeddiadau Mr. Plater wedi myned yn dau yn ei esgyrn yn rhy fuan. Tenmiai fod angeuriaid wedi ei osod arno i'w pregethu, a'r caulyniad fu *[illegible]*. A'r peth gwaethaf yn y mater oedd ei fod yn amalinog i ymgeisio am le arall fel curad. Rhaid wrth lythyrau cymmeradwyaeth at yr amean newuw, a dartu i'r personau priodol, sef Ficer Penarth ac Esgob Llandaf, eu gwrthod. Yr oedd, felly, o dan wertn yn ngolwg offeiriad ac esgob, a'i ragolygon yn yr Eglwys wedi eu tywydu am byth. Ysgrifenodd lythyr llawn temlad da i'r *South Wales Daily News* i wneyd yn hyspys ei ymadawiad a'r Eglwys, a'i fwriad i ymuno a rhyw gyfundeb Ymneilldiol a fuasai yn rhoddi maes iddo lafurio. Ond

BETH YW HERESI MR. PLATER?

Wel, mae'n amlwg ei fod wedi dyfod i gofleidio yr hyn a elwir yn awr "y ddiwinyddiaeth newydd" sydd wedi treiddio, erbyn hyn, trwy yr holl fyd Cristionogol, ac wedi gwneyd *havoc* ar yr hen syniadau. Yr oedd yr hen ddiwinyddiaeth yn cychwyn oddiar benarglwyddiaeth Duw, ac mae'r un newydd hefyd yn myned at wreiddyn y mater yn natur Duw, ac yn dweyd yn ngeiriau'r Efengyl, "Felly carodd Duw y byd." Mae y mau cychwyn yn gwneyd gwahaniaeth rhyfeddol. Didana Echoledigaeth, lawn i gyfiawnder, a chosp dragwyddol ar yr ergyd cyntaf. Mae y ddiwinyddiaeth newydd, mewn gwirionedd, yn

ben y llwybr at Undodiaeth, ac yn arwain, fel y tybiwn ni, yn angenrheidiol i hyny. Ond nid iawn, er hyny, fyddai galw Mr. Plater, ac ereill, o'r un duedd yn Undodiaid. Er eu bod wedi ymwadu ag hanfodion iawnffyddiaeth, parhant i gredu yn Nuwdod Crist, ac yn y Drindod. Ar yr achlysur y darfu i ni glywed Mr. Plater, darfu iddo anerch Iesu Grist amryw o weithiau fel gwrthddrych gweddi.

MR. PLATER MEWN PWLPUD YMNEILLDUOL.

Ar y Sul, Medi 4, cawsom y fraint o wrando ar y curad esgymmunedig yn cynnal y gwasanaeth, ac yn pregethu yn nghapel yr Annibynwyr Seisnig, yn Merthyr. Yr oedd cynnulleidfa ragorol wedi dyfod yn nghyd. Ar ol dysgwyl ychydig funydau dros yr amser, esgynodd y pregethwr i'r pwlpud—dyn glandeg, oddeutu 35 oed, teneu, tal, ychydig o wallt du ar ei goryn; dim un blewyn ar ei wyneb; golwg ac osgo hollol offeiriadol, a'r gwn du a wisgai yn ychwanegu at yr argraff. Llais da, hyglyw—yn darllen y pennodau o'r Beibl fel pe buasai yn eu teimlo; yn darllen yn well nag y gweddiai. Ymddangosai fel yn annghynnefin â gweddio o'r *frest*, fel y dywedir, ac nid yw hyny yn syndod, gan ei fod wedi arfer ymddybynu ar y Llyfr Gweddi. Pregethodd am oddeutu ugain munyd. Yr oedd y bregeth o'i flaen, ond yn anaml yr edrychai ar y papyr. Ymddangosai yn hollol gartrefol gyda'r gwaith, ac yr oedd y bregeth, o rau mater a thraddodiad, yn mhell uwchlaw yr *average*. Mewn gair, pregethwr o'r iawn ryw yw Mr. Plater, ac os dygwydd iddo gael cylch cymhwys iddo ei hun, byddwn yn debyg o glywed am dano yn ol llaw.

PWNC Y BREGETH.

Ei bwnc oedd "y ddafad golledig" (Luc xv. 3—7). Sylwai i ddechreu ar y tair dammeg yn y bennod, a'r tri dosparth o bechaduriaid a ddesgrifid ynddynt—arwyddnodau y dryll a gollasid y rhai nad oedd ganddynt ewyllys na gallu i ddychwelyd; y ddafad golledig, y rhai a feddent yr ewyllys, ond nid y gallu, i ddychwelyd; y mab afradlawn, y rhai oeddynt ag ewyllys a gallu i ddychwelyd. Sylwai wed'yn ar y ffaith fod y publicanod a'r pechaduriaid a anerchent yr Iesu wedi cael eu hesgeuluso yn hollol gan y rhai a ddylent ofalu am danynt—swyddogion yr Eglwys Iuddewig, gwaith y rhai, meddai'r pregethwyr, gyda chyfeiriad aneglur at ei brofiad ei hun, oedd gofalu am yr Eglwys, ei thraddodiadau, a'i rhagorfreintiau. Cawsom wed'yn ddesgrifiad llawn teimlad o waith Crist yn ceisio ac yn achub yr hyn a gollasid, ac yn cario allan ei genadwri o gariad yn mhlith rhai ag oedd pawb ereill wedi eu gadael i farw. Terfynodd trwy sylwi ar amynedd a dyfalbarhad y cariad Dwyfol a ddatguddiwyd yn Nghrist—"Hyd oni chaffo efe hi" (ad. 4). Nid yw Duw na Christ yn colli eu golwg ar y pechadur, nes y delai adref yn y byd hwn neu ryw fyd arall; ac mae pob pechadur i ddychwelyd yn y diwedd—yr holl deulu i gydgwrdd yn nghartref y Tad, a Duw oll yn oll.

UNIT.

PROCLAMASIWN Y CYNGHRAIR CENEDLAETHOL YN YR IWERDDON.

Mr. Gol.,—Llawenydd digymmysg i mi ydyw gwybod nad ydych yn cau drws eich misolyn i ymdriniaeth â materion perthynol i *lywod-ddysg*. Pe gwnaech hyny, lladdech, ar un ergyd, megys, un o ddybenion uchaf Undodiaeth oleuedig, sef cymhwyso yn ymarferol egwyddorion y grefydd Gristionogol at amgylchiadau cyffredin bywyd. Yn hapus, nid oes achos myned i'r cyfeiriad hyna, am mai fel arall y mae yn hollol. Bum yn meddwl nad anmhriodol fyddai attegu sylw darllenwyr yr Ymofynydd am foment i edrych ar yr anfadwaith a gyflawnir yn bresenol gan y Weinyddiaeth yn yr Iwerddon. Fy rheswm dros hyn, yn fwyaf neilldnol, ydyw meddwl y gall rhai fod yn teimlo digon o ddyddordeb i ddarllen pobpeth a ymddangosa yn misolyn eu henwad, ac etto, yn amddifad o chwaeth i ddarllen y papyrau newyddion; ac fel un yn teimlo dyddordeb dwfn yn ei holl hawliau dinasol, credaf nad llai na phechod ydyw peidio cyhoeddi hyd y nod ar benau y tai, rhyfyg, gormes, ac erchyllderau y Llywodraeth bresenol yn yr Iwerddon. Mae eu gwaith yn *proclaimo* y cynghrair yn yr Ynys Werdd, o dan yr amgylchiadau presenol, wedi gwneuthur iddynt enw nad oes ond y bedd a'i pydra. Os oes rhywbeth wedi rhoddi urddas ac anrhydedd i'r Cyfansoddiad Prydeinig, y sylweddoliad hwnw o'r ddiareb Gymreig a clwir "Rhyddid Llafar," ydyw un peth. Peth arall ydyw yr hawl a ganiatawyd i ddeiliaid y wlad hon oddiar y drydedd ganrif ar ddeg, pan ddygir cyhuddiad o unrhyw fath yn eu herbyn, i sefyll neu syrthio wrth reithfarn deuddeg o'u cyd ddynion. Priodol iawn y gellir edrych ar y cyntaf o'r hawliau uchod fel y rhedwely mwyaf manteisiol i ddadblygiad llawn o'r syniadaeth a'r daioni gofynol i gynnal cymdeithas, tra nas gellir edrych ar yr olaf ond fel y moddion mwyaf addas a chyfreithlawn i gospi troseddau. Ond er yr holl ddaioni a gynnyrchir trwy offerynoliaeth yr hawliau uchod, y mae y Llywodraeth ddoeth (?) hon wedi gwel'd fod yn dda i yspeilio pob Gwyddel o honynt sydd yn yr Iwerddon, oddigerth penboethiaid Belfast, gyda'r amcan, meddant hwy, o osod i lawr droseddau tybiedig, oblegyd yn eu byw, nis gallant ddwyn ystadegaeth i brofi fod yno y fath gyfundraeth o droseddau ag i hawlio pasiad y gyfraith ormesol sydd yno yn awr. Ni charwn, pe y gallwn, roddi y fath ddesgrifiad o greulonderau cyfreithiau gormesol yn yr Iwerddon ag a barai i'r annghyfarwydd gredu nad oes y fath beth wedi bod a phasiad deddfau gormesol gan y blaid Ryddfrydig, Yn anffodus, byddai hyny yn gamarweiniad dybryd; ond tegwch ydyw dweyd nad yw y Blaid Ryddfrydig erioed wedi pasio deddf ormesol ar ammodau cyffelyb i'r rhai y pasiwyd y ddeddf bresenol arnynt. Ystâd gyfoethog o droseddau, yn nghyd â pheryglon mawrion i fywydau, oeddent yr amgylchiadau yn mha rai y pasiwyd deddfau gorfodol hyd at y flwyddyn hon. Yn y flwyddyn hon, y mae pethau yn dra gwahanol, oblegyd er nad oes yno droseddau yn awr, y mae yno *coercion*. Pwy fedr lai na

chredu mai amcan y Llywodraeth ydyw creu troseddau yn yr Iwerddon ?

Y cyfryw ydyw sefyllfa pethau yn yr Iwerddon mor bell ag y mae a fyno y Gwyddelod â hyny, nas gellir llai nâ'u llongyfarch yn ngwyneb eu hymdrechion canmoladwy i fyw i fyny â'r unig belydryn o obaith sydd wedi ei ddal allan iddynt oddiar pan yr yspeiliwyd hwynt o'u hannybyniaeth. Gresyn na chymmerai y Llywodraeth esiampl ganddynt, a phenderfynu byw o hyn allan i fyny i amcan llywodraeth wladol, sef amddiffyn bywydau ac hyrwyddo buddiannau y deiliaid, ac nid eu saethu i lawr fel brain yn gwbl ddiachos.

Yn mhellach, y mae nid yn unig yr ammodau ar y rhai yr appeliwyd at y Ty am awdurdod i basio y Ddeddf Orfodol bresenol yn bethau i synu atynt, ond hefyd, rhai o'r personau a appeliasant am yr awdurdod uchod, yn fwyaf neillduol, y blaid Undebol. Cyfiawnder â rhai o'r blaid hon ydyw dweyd eu bod ar hyd eu hoes wedi dadleu a phleidleisio a gwneuthur a allesid i helaethu yr etholfraint, mewn trefn, wrth gwrs, i gael cynnrychiolaeth lwyrach ac effeithiolach o farn a theimlad y wlad. Mor selog yr oedd rhai o honynt dros egwyddorion rhyddid, fel yr oedd yn gâs ganddynt am enw a chyfreithiau gorfodol, chwaithach eu hyspryd. Ond pan wynebwyd y cyfryw ddynion gan ganlyniadau anocheladwy helaethiad yr etholfraint, aethant yn wallgofiaid ac ynfydion, ac nid oedd dim a wnelai y tro iddynt ond acenion swynol a cherddoriaeth felus (iddynt hwy, beth bynag,) cyfreithiau gorfodol, a hyny, nid dros amser, ond am byth. Dyma'r dynion cysson sydd yn gallu edliw i Mr. Gladstone ei annghyssondeb bradwrus! Fel etholwyr, mae yn bwysig i ni gofio na fuasai y sefyllfa bresenol yn yr Iwerddon yn beth possibl oni b'ai fod beiddgarwch *my Lord* Salisbury yn ymorphwys yn dawel ac esmwyth ar y gefnogaeth a roddid iddo gan y Rhyddfrydwyr Toriaidd a elwir yn Undebwyr. Dywedir, a chyda llawer o briodoldeb, fod i bob cwmmwl ei ochr oleu, a beiddiaf ddweyd fod *silver lining* i'r cwmmwl hwn, er dued ydyw. Os methodd ymdrechion unedig y ddwy blaid wleidyddol yn Mhrydain Fawr am yn agos i gan' mlynedd â dyddimu y teimlad cenedlaethol yn yr Iwerddon, pa synwyr sydd y llwydda un o'r pleidiau uchod i wneyd hyny pan y mae y blaid arall (y Rhyddfrydwyr) yn estyn llaw o gymhorth i'r Gwyddel adfywiol? Nid oes diangfa rhag y grediniaeth a ddatganai Parnell yn y Ty yn ddiweddar, y bydd tragwyddoldeb y Gyfraith Orfodol ar ben yn fuan, ac y bydd egwyddorion rhyddid yn blaguro ar ei hadfeilion.

Llwynypia, Medi 20, 1887. JOHN MORGAN.

Manion a Hanesion.

Mae y *Christian Register* yn dymuno cyflwyno i sylw y brodyr iawnffyddiol eiriau Socrates wrth ei farnwyr: "Ni ddichon un niwed i ddyn da, pa un bynag ai byw ai marw fyddo." Os yw hyn yn wir o gwbl, mae yr un mor wir am y pagan da ag ydyw am y Cristion da. Ac am baganiaid drwg ni ddylent gael eu cospi yn waeth nâ Christionogion drwg, a thebyg na chawsent oni bai fod yr ysgolion duwinyddol wedi eu dyfarnu i drueni tragwyddol.

NOTTAGE.—Cynnaliwyd gwyl cynauaf fel arfer, y Parchn. J. B. Lloyd, Braintree, Essex, a J. H. Davies, Cefn, yn pregethu, y cyntaf yn Saesneg, a'r olaf yn Gymraeg. Yr oedd y pregethau yn dda, a'r cynnulliadau yn lluosog.

Mewn ateb i'r cwestiwn sydd mor boblogaidd gan rai, "Are you saved?" rhoddodd y Dr. Mathieson yn ddiweddar yr ateb yn nacaol, ac nad oedd yn dysgwyl y byddai efe yn gwbl felly nes myned i'r ochr draw. Mae y Dr. fel Paul gynt, nid yw wedi dal gafael, ond y mae'n dylyn ar ol. Y dyb boblogaidd yw fod dyn yn cael yr iachawdwriaeth fel pe byddai yn cymmeryd pilsen, ar unwaith; tra mae'r iachawdwriaeth yn golygu cyflwr o berffaith iechyd ysprydol, ac i'w sicrhau trwy ymdrech a gofal mawr.

DIRWEST.

Mae dirwest fwyn yn galw,
De'wch yn mla'n, de'wch yn mla'n,
Rho'wch heibio yfed cwrw,
De'wch yn mla'n;
Ardystiwch yn ddifrifol,
Na yfwch ddiod feddwol,
Yr hon sy'n lladd y bobol,
A'u damnio yn drag'wyddol,
De'wch yn mla'n, dew'ch yn mla'n.

Mae Duw o'r nef yn galw
Ie'nctyd oll, ie'nctyd oll,
Am roddi heibio'r cwrw,
Ie'nctyd oll;
Rho'wch glust o ymwrandawiad
Ac ufuddhewch i'w alwad,
Ardystiwch yr ardystiad,
Bydd hyny'n weithred cariad,
Ie'nctyd oll, ie'nctyd oll.

—D. BYRON LEWIS, Llanddewibrefi.

Marwgofion.

Meh. 3, David Jenkins, Clynmeherin, Llanwenog, yn 73 mlwydd oed, gan adael gweddw ac wyth o blant i alaru ar ei ol. Claddwyd ef dydd Mercher canlynol yn nghladdfa Capelygroes, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. Evans, ficer, Llangybi (yr hwn yw perchenog yr amaethdy lle y preswyliai, a dylys mai o barch iddo fel y cyfryw, ac nid o herwydd ei olygiadau crefyddol, yr anfonwyd am dano i bregethu). Yr oedd yr ymadawedig yn frawd i'r diweddar fardd Gwilym Gwenog, ac yr oedd ef, fel ei frawd, wedi cael llawer orig ddedwydd yn nghyfeillach yr awen, nes annghofio yn llwyr ofidiau y byd. Ni a obeithiwn y bydd iddo fwynhau yr un dedwyddwch mewn byd sydd yn llawer llai ei ofidiau.—*G. Williams.*

Gorph. 4, David Thomas, Saer Maen, gynt o Cwmgerwn, yn mhlwyf Ystrad, yn 81 mlwydd oed. Bu yr ymadawedig am y deng mlynedd diweddaf o'i oes yn cartrefu gyda'i fab yn Aldergate, ac yr oedd yn achlysurol yn wrandawwr astud yn nghapel Rhydygwin. Yr oedd ei rodiad yn ddichlynaidd, ac yr oedd yn barchus gan bawb a'i adwaenai. Bu yn gweithio wrth ei gelfyddyd nes oedd yn bedwar ugain oed, yr hyn sydd yn dangos ei fod yn meddu ar gryfder corfforol bron yn ddiail. Dydd Mercher canlynol, dygwyd ei gorff gan dorf luosog i fynwent Ystrad, lle y gorphwys, yn nghyd a'i briod, a llawer o'i blant. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. Wm. Rees, oddiwrth II Corinthiaid v. 1. Gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. B. Phillips, Tynygwndwn, a gwasanaethwyd yn yr eglwys gan ficer y plwyf.—*Jenkin ap Gryff.*

Medi 13, Mrs. Mary Jones, Twyn-yr-Odyn, Merthyr Tydfil, yn 78 mlwydd oed, gweddw y diweddar ddatganwr enwog, Mr. John Thomas Jones, gynt o Benyrheolgerryg, Merthyr. Cafodd gystudd mawr am flynyddau meithion, a bu yn gyfyngedig yn ei gwely am yn agos i ddeng mlynedd ar ugain. Claddwyd hi yn Nghladdfa Hen-Dŷ-Cwrdd yr Undodiaid ar Gefncoedycymmer. Mae saith o blant (tri mab a phedair merch) ar ei hol, y mab hynaf yn Awstralia er ys blynyddau. Addysg gyssurlawn y grefydd Gristionogol a'u dyddanont oll yn eu hamddifadrwydd.—*C.*

J. Howell, Argraffydd, Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—D.E., Ystrad; P.P., Rhydyparc; W.D., Cribin; D.E., Watts' Town; E.J., Aberdar; D.W.D., Gellionen; R.G., Cwmavon; D.R., Aberfan; W.L., Pontypridd.

D.S.—Drwg genym fod yr argraffydd wedi methu cael rhai hanesion i fewn y tro hwn.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Cydnabyddwyd eisoes, £113 6s. 6ch. Captain Davies, Brown Hill, 10s.; D. Thomas, Pantydefaid, 2s. 6ch.; Jane Jones, Pantyronen, 1s.; Henry Howells, Llanwnen, 2s. 6ch.; Evan Howells, Esgeringlis, 10s.; D. Thomas, Tynffordd, 2s. 6ch.; D. Davies, Lowtre, 5s.; Mrs. Davies, etto, 5s.; Mrs. Thomas, Rhandir, 1s.; Mrs. Evans, Maesymeillion, 5s. 6ch.; D. Evans, Llysfaen House, £1 1s.; Thomas Davies, Blaencwrt, 7s. 6ch.; Sarah Davies, Tancoed, 2s. 6ch.; E. Evans, Blaenpant, 2s. 6ch.; J. Hopkins, Aber, 1s.; J. Thomas, Pantmeddyg, 1s. 6ch.; D. Jones, Brynllefrith, 2s. 6ch.; Mrs. Jones, etto, 1s.; Thomas Davies, New Court Mill, 2s. 6ch.; Jacob Thomas, Weaver, 1s.; B. Evans, Bodawel, 2s. 6ch.; M. Evans, etto, 2s. 6ch.; D. Evans, etto, £2 10s.; Evan Williams, Llanwnen, 4s.; Mrs. Thomas, Castell-du, 5s.; Thomas Jones, Baily, 5s.; John Evans, Tangraig, 5s.; Jenkin Morgan, Tryal, 5s.; D. Morgan, Moyddyn-ucha', 5s.; R. Davies, Cornicyll, 1s. Casglwyd gan Miss Jenkins, Rhydybannau:—Miss Sharpe, London, £30; Rev. R. C. Jones, Lampeter, 10s.; A. Evans, Surgeon, etto, 10s.; Saml. Davies, etto, 5s.; D. Jenkins, Blaenwaun, 10s.; M. Williams, Ffynnon-oer, 2s.; Mrs. Evans, Gyfeile, £1 1s.; E. Jones, etto, 1s.; D. Evans, etto, 2s.; J. Jenkins, Llangadock, £1 1s.; W. Jenkins, Aeron Villa, £1; Miss Jones, Wern Cottage, 10s.; Mrs. Davies, etto, 10s.; J. Jones, Ffynnon-ddewi, 5s.; Mrs. Jones, etto, 5s.; John Daniel, Clynrhelig, 10s.; E. M. Jones, Coedmorfawr, 2s.; Miss Jones, Vale of Tivy Inn, 2s. 6ch.; S. Davies, Felinban, 1s.; J. James, Llandyssul, 10s.; D. Jenkins, Glanwern, 10s.; Mrs. Jenkins, etto, 10s.; E. Evans, Maesymynach, £1 1s.; Mrs. Evans, etto, 10s.; H. Davies, Cribin Farm, 1s.; Mrs. Evans, Rose Mount, 2s. 6ch.; D. Rees, Pantycerdin, 3s.; J. Jones, Waungron, 2s.; Elizabeth Evans, Cribin Farm, 5s.; D. Davies, Ffrwd, 3s.; D. Evans, Lanlas, 2s. 6ch.; E. Jones, Penlancapel, 6ch.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol yn Llanbedr, ar y 5ed a'r 6ed o Hydref. Pregethwr, y Parch. W. James, B.A.; yn Saesneg, y Parch. J. E. Manning, M.A. Pwnc y gynnadledd, "Moesoldeb a Chrefydd, a'r gwahaniaeth rhyngddynt, os oes gwahaniaeth." Darllenir papyr arno gan y Parch. Jno. Davies. Yr oedfaon: Nos Fercher am 6; dydd Iau am 10, 2, a 6.

R. C. JONES.

POSTCARD SYMPOSIUM RHIFYN RHAGFYR.

PWNC:—I bwy mae Duw yn Dad? I fod mewn llaw erbyn Tachwedd 10.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

D.S.—Yr ydym yn taer gymhell i sylw cyfeillion fod taliad yn ddyledus i'r drysorfa uchod. Anfoner at y Gol.

St. Clears, per Mr. D. Phillips, 17s. 6d. Mrs. Jones, Aberdare, 20s.